**YN CYNNWYS:/ WHAT'S IN THIS ISSUE:**


NEWID STAFFIO / STAFF CHANGES — TUD.2 / PAGE 2

CWRICWLWM NEWYDD / NEW CURRICULUM — TUD.3 / PAGE 4

GIG ! — TUD.5 / PAGE 5


# PENCAMPWYR!




Llongyfarchiadau enfawr i dîm merched bl.10-11 ar ennill Pencampwriaeth Pêl-rwyd Gogledd Cymru! Bydd y genod yn mynd ymlaen i chwarae yn rownd terfynol Cymru. Pob dymuniad da iddynt a diolch i Mrs Emma Jones am y trefniadau.

*Congratulations to the year 10-11 girls' netball team on winning the North East Wales Championships. They will soon be competing in the Welsh final. Good luck and thank you to Mrs Emma Jones for the arrangements.*

## COFIO'R PETHAU BYCHAIN / DOING THE 'LITTLE THINGS'




Fel rhan o'n dathliadau Gwŷl Dewi, cafodd pob aelod o staff- yn lanhawyr, cogyddion, staff cefnogol ac athrawon- y cyfle i ddanfon cardiau 'diolch' at unrhyw ddisgybl oedd wedi 'gwneud y pethau bychain' i helpu. Roedd y rhesymau'n amrywio o ddweud 'bore da, sut ydych chi?' yn gyson at godi sbwriel heb i unrhyw athro ofyn i'r disgybl wneud. Llongyfarchiadau i bob disgybl dderbyniodd cerdyn, yn arbennig i Esme bl.9 oedd wedi ennill chwe cherdyn!

As part of our St David's Day celebrations, every staff member-our cleaners, cooks, support staff and teachers-had the chance to send 'thank you' cards to any pupil who had 'done the little things' to help. The reasons varied from saying 'Good morning, how are you today?' to litter-picking without having prompted the pupil to do so. Congratulations to all our pupils who received cards, especially to Esme in year 9 who received six cards!



Wedi 22 blynedd o wasanaeth i'n hysgol, bu i Mrs Liz Jones, Gyrfa Cymru, ymddeol yn ddiweddar. Mae llwythi o ddisgyblion Ysgol Maes Garmon wedi elwa o'i chyngor ar hyd y blynyddoedd ac rydym yn hynod ddiolchgar iddi am bob dim. Edrychwn ymlaen at gydweithio efo Kayleigh Brummell wrth iddi ymgartrefu yma efo ni ar ran Gyrfa Cymru.

*Following 22 years of service to our school, we recently said farewell to Mrs Liz Jones from Careers Wales. Hundreds of pupils have benefitted from her advice over the years and we are exceptionally grateful to her for everything. We look forward to working with Kayleigh Brummell as she settles into her Careers Wales' role at our school.*

Rydym yn hynod falch o fedru cyhoeddi ein bod ni wedi apwyntio Miss Hannah Roberts fel athrawes yn yr adran Cemeg o fis Medi ymlaen. Mae Miss Roberts yn dod atom wedi cyfnod o ddysgu yn Ysgol Crist y Gair, Y Rhyl. Llongyfarchiadau mawr iddi ar ei phenodiad. Dymunwn yn dda i Mrs Sarah Turner yn ei hymddeoliad.

*We are delighted to announce the appointment of Miss Hannah Roberts to the Chemistry department from September onwards. Miss Roberts joins us following a period of teaching in Christ the Word school, Rhyl. Many congratulations to her on her appointment. We wish Mrs Sarah Turner well in her retirement.*









Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
*Languages, Literacy and Communication*

Mathemateg a Rhifedd
*Mathematics and Numeracy*

Gwyddoniaeth a Thechnoleg
*Science and Technology*

O fis Medi 2023, mi fydd yn statudol i ni fel ysgol redeg Cwricwlwm i Gymru (i flynyddoedd 7 ac 8 yn y lle cyntaf). Byddwn yn treialu unedau o waith efo blwyddyn 7 o fis Medi 2022, ac mae ein staff wedi bod yn brysur yn rhwydweithio ac ymchwilio er mwyn dylunio cwricwlwm fydd yn datblygu ein dysgwyr i fod yn oedolion gwybodus, hyderus a chyfrifol. Wrth sefydlu ein gweledigaeth i'r cwricwlwm newydd, rydym wedi ystyried y tri chwestiwn isod:

- Beth y dylem ei ddysgu a pham?
- Sut y dylem ei ddysgu?
- Sut y bydd hyn yn cefnogi ein dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben?

# Cwricwlwm i Gymru

Mae gan ein dysgwyr,  staff a llywodraethwyr yr ysgol atebion amrywiol i'r cwestiynau hyn, a byddem yn falch iawn o ystyried ymatebion ein rhieni a gwarcheidwaid wrth i ni strwythuro'r cwricwlwm newydd. Mae croeso i chi rannu eich ymatebion gan e-bostio niawyn.jones@ymg.cymru erbyn 27.5.2022. Cewch fwy o wybodaeth am y cwricwlwm trwy ddilyn https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ . Mae'r wybodaeth yn cynnwys cyfeiriadau at y tri chod statudol:

- cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
- cod cynnydd
- cod addysg cydberthynas a rhywioldeb

Edrychwn ymlaen at glywed gennych!


I Celfyddydau Mynegiannol
*Expressive Arts*

Iechyd a Lles
*Health and Well-being*

Dyniaethau
*Humanities*










Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
*Languages, Literacy and Communication*



Mathemateg a Rhifedd
*Mathematics and Numeracy*



Gwyddoniaeth a Thechnoleg
*Science and Technology*

- From September 2023, it will be statutory for the school to deliver the new Curriculum for Wales (to years 7 and 8 in the first instance). We will be trialling units of work with year 7 in Sepetmber 2022, and our staff have been busy networking and researching in preparation for designing a curriculum that will see our learners develop into informative, confident and responsible adults. When developing our vision for the new curriculum , we have considered the following three questions:
- What should we teach and why?
- How should we teach it?
- How will this support our learners to realise the four purposes?

# Curriculum for Wales

Our learners, staff and governors have various answers to these questions, and we would be pleased to receive responses from our parents and guardians as we structure our new curriculum. You are welcome to share your responses by e-mailing niawyn.jones@ymg.cymru  by 27.5.2022. Further information about the new curriculum can be found through following https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/ The information includes references to the three statutory codes


- the statements of what matters code
- the progression code
- the relationships and sexuality education code

We look forward to hearing from you!


I Celfyddydau Mynegiannol
*Expressive Arts*



Iechyd a Lles
*Health and Well-being*



Dyniaethau
*Humanities*



# Gig!

Roedd criw ein Clwb Perfformio wedi bod yn ffodus iawn yn ddiweddar i gael gwrando ar ddau o artistiaid cyfoes y sÎn bop yma yng Nghymru.

Diolch i Menter Iaith Fflint a Wrecsam, cafodd disgyblion a staff gyngerdd anffurfiol yng nghwmni Jacob Elwy a Dafydd Hedd. Roedd hi'n hynod braf medru mwynhau cerddoriaeth fyw unwaith eto!




*Our Performing Club were recently treated to a live gig performed by two artists who are familiar on the Welsh pop circuit. Thanks to Menter Iaith Fflint a Wrecsam, staff and pupils got to enjoy performances by Jacob Elwy and Dafydd Hedd. It was great to enjoy live music once again!*



Ym mis Mai, bydd ymchwilydd ym gweithio gyda thri grŵp ffocws o flynyddoedd 7-12 fel rhan o waith paratoi cymwysterau newydd yn sgil Cwricwlwm i Gymru. Os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn cymryd rhan, mae angen iddynt hysbysu'r tiwtor cofrestru yn ystod yr wythnos gyntaf wedi'r gwyliau.

*During May, a researcher will be working with three focus groups from years 7-12 as part of the preparation of new qualifications in light of Curriculum for Wales. If your child has an interest in participating in the focus groups they should inform their registration tutor during the first week back following the holidays.*



Yn ystod gwyliau'r Pasg, bydd system CCTV yr ysgol yn cael ei hadnewyddu er mwyn sicrhau diogelwch pawb tra ar y safle. During the Easter holidays, our CCTV system will be renewed to ensure everyone is safe whilst on the premises.

# Profiadau / Experiences!

Cafodd aelodau o'r 6ed dosbarth y cyfle i ymweld ag amgueddfeydd Lerpwl yn ddiweddar. Tra yno, cafwyd cyfle i ddarllen am hanes Tim Wright-cerddor sydd â chyswllt efo'r ysgol. Cewch fwy o hanes yn y rhifyn nesaf! Diolch i Mr Aled Owen am drefnu'r daith.

*Members of the 6th form recently visited the museums of Liverpool. Whilst there, they got to hear about the musician Tim Wright, who has close contacts with the school. You can read more about him in the next issue! Thank you to Mr Aled Owen for organising the trip.*











Diolch i Mr Gareth Wyn Jones am drefnu'r ymweliad i ganolfan Bwdhaidd ym Manceinion yn ddiweddar. Roedd y daith yn addysgiadol iawn i'r dysgwyr sy'n astudio Bwdhaeth ar gyfer eu TGAU. *Thank you to Mr Gareth Wyn Jones for arranging the trip to the Buddhist Centre in Manchester. The trip was extremely informative for the GCSE students who are studying Buddhism as part of their course.*


Mae'r cerddor o'r Fflint, Tom Collins, wedi bod yn ymweld â dosbarth TGAU Cerddoriaeth yn wythnosol i gynnal gweithdai cyfansoddi. Diolch i Darren Morris am drefnu'r profiad! *Tom Collins, a musician from Flint, has been visiting the GCSE year 10 class to conduct composing workshops. Thanks to Darren Morris for arranging the experience.*









# Eisteddfod yr Urdd!

Bu'n disgyblion yn brysur yn paratoi at Eisteddfod Rhanbarth Fflint Maelor ers wythnosau bellach a bu cystadlu brwd ddydd Gwener a dydd Sadwrn y 1af a'r 2il o Ebrill. Rydyn ni'n hynod falch o'u hymroddiad, eu perfformiadau a'u llwyddiant. Bydd yr ysgol yn cael ei chynrychioli mewn 21 o gystadlaethau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych dros y Sulgwyn. Bydd nifer o'n disgyblion hefyd yn cystadlu gydag Uwch Adran ac Aelwyd yr Wyddgrug. Dymunwn yn dda i bob un o'n disgyblion fydd yn cystadlu. Diolch hefyd i'r staff am hyfforddi'r disgyblion: Mrs Bethan Wyn Jones; Mr Ynyr Llwyd; Miss Elin Roberts; Miss Lisa Owen; Miss Gwenllian Williams.

*Congratulations to every pupil who competed in the Urdd County Eisteddfod on the 2nd of April. We were so proud of the large number of pupils who participated leading to the school being represented in 21 competitions in the Urdd National Eisteddfod at Denbigh. Thanks to all the pupils who learnt their pieces and performed so brilliantly. Thanks also to the staff members who taught the pupils: Mrs Bethan Wyn Jones; Mr Ynyr Llwyd; Miss Elin Roberts; Miss Lisa Owen; Miss Gwenllian Williams.*



**Cofiwch fod rhaid archebu eich tocynnau i'r Genedlaethol. Maen nhw'n rhad ac am ddim!**
**Remember that you must order your ticket for the National Eisteddfod. They are free of charge!**

## Gweithdy Drama Theatr Clwyd Drama Workshop

Diolch i Gwennan Mair, Theatr Clwyd, am drefnu gweithdy i rai o ddisgyblion blwyddyn 9 er mwyn iddyn nhw fedru dysgu am ddigartrefedd o fewn ein cymdeithas trwy'r celfyddydau.
*Thanks to Gwennan Mair, Theatr Clwyd, for arranging a workshop for some of our year 9 pupils so they could learn about homelessness within our society through the arts.*








# Talk the Talk...







Cafodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 10 y cyfle i gryfhau eu sgiliau siarad cyhoeddus yn ddiweddar dan arweiniad Carl o elusen Talk the Talk UK. Bydd rhagor o weithdai yn digwydd nes ymlaen yn y flwyddyn.

Some members of year 10 recently had the opportunity to strengthen their oral skills by following the expertise of Carl from Talk the Talk Uk- an educational charity. Further workshops will take place later in the year.



Talk The Talk
CONFIDENT COMMUNICATION FOR LIFE

# CYSTADLAETHAU- MENTER IAITH-COMPETITIONS

DAETH SAWL UN O'N DISGYBLION I'R BRIG YNG NGHYSTADLAETHAU GŴYL DEWI MENTER IAITH SIR Y FFLINT AM LUNIO DARNAU YSGRIFENNU CREADIGOL AMRYWIOL. LLONGYFARCHIADAU MAWR IDDYN NHW I GYD.

SEVERAL PUPILS WERE SUCCESSFUL IN THE MENTER IAITH ST.DAVID'S DAY CREATIVE WRITING COMPEITION. CONGRATULATIONS TO ALL OF THE PUPILS WHO WROTE A VARIETY OF CREATIVE PIECES.

menteriaith
FFLINT A WRECSAM

**BARDDONIAETH BLWYDDYN 8-YEAR 8 POETRY**

1AF: ERIN  2IL: ALYS  CYDRADD 3YDD: GWENLLIAN A SEREN

**YMSON BLWYDDYN 10 AC 11 - YEAR 10 AND 11 SOLILOQUY**

1AF: JOSEPH

**STORI BLWYDDYN 12 - YEAR 12 SHORT STORY**

1AF: GRUFF


**PORTREAD BLWYDDYN 13 - YEAR 13 PORTRAIT**

1AF: NANW  2IL: CASI JONES  3YDD: ALICE













## GWOBRAU ADRAN Y GYMRAEG -WELSH DEPARTMENT PRIZES

SEFYDLWYD GWOBRAU GŴYL DEWI NEWYDD GAN YR ADRAN GYMRAEG ELENI. MAE'N BRAF CAEL CYDNABOD GWAITH CALED Y DISGYBLION. GWOBRWYWYD TLWS I ENILLYDD CA3 A CHADAIR I ENILLYDD CA4/5. DIOLCH YN FAWR I MR ADRIAN EVANS AM EI GEFNOGAETH YN CREU'R TLWS A'R GADAIR. LLONGYFARCHIADAU IDDYN NHW I GYD!

**TLWS CA3 / KS3 PRIZE**

1AF: MABLI  CYDRADD 2IL: CARYS A BRONWYN

**Y GADAIR / THE CHAIR**

1AF: NANW 2IL: CASII  3YDD: ALICE

THE SAINT DAVID'S DAY PRIZES WERE ESTABLISHED BY THE WELSH DEPARTMENT THIS YEAR TO ACKNOWLEDGE THE FANTASTIC WORK OF OUR PUPILS. KEYSTAGE 3 PUPILS WERE AWARDED WITH A TROPHY, WHILST KEYSTAGE 4/5 WERE AWARDED THE HIGHEST ACCOLADE-THE CHAIR. THANKS TO MR ADRIAN EVANS FOR CREATING THE TROPHY AND THE CHAIR. CONGRATULATIONS TO ALL THE ENTRANTS!





Diolch i Joseph, Iwan, Nel ac Alys am siarad efo newyddiadurwyr BBC Cymru am eu profiadau o baratoi ar gyfer arholiadau TGAU wedi cyfnod y pandemig.

*Thanks to Joseph, Iwan, Nel and Alys for talking to BBC Cymru journalists about their experiences of preparing for their GCSE exams following the pandemic.*

Llongyfarchiadau i Nel ar ennill lle yn Theatr Genedlaethol Ieuenctid Cymru.

*Congratulations to Nel on gaining a place in the National Youth Theatre of Wales.*








Rydym yn falch iawn o'r disgyblion a chyn-ddisgyblion sydd wedi bod yn aelodau o gôr 'Only Boys Aloud'. Mae'n ben-blwydd 10 mlynedd ar y côr a chynhelir cyngerdd arbennig yn Y Rhyl ym mis Gorffennaf i ddathlu'r achlysur. Pob dymuniad da i bawb sy'n cymryd rhan! Cofiwch fod côr Wrecsam yn cwrdd pob nos Fawrth ac mae'n rhad ac am ddim! Cysylltwch ag obagogledd@thealoudcharity.com am fwy o fanylion.

*We're very proud of the pupils and former pupils who have been members of 'Only Boys Aloud'. It's the 10th anniversary of the choir and a special concert is to be held in Rhyl during July to celebrate this achievement. Good luck to everyone participating in the event. Remember that the Wrexham choir meets every Tuesday evening and is free! Contact obagogledd@thealoudcharity.com for further details.*

# Cyngor ac Arweiniad
# Advice and Guidance

Mae HWB wedi cyhoeddi platfform newydd ar gyfer pobl ifanc sy'n poeni am broblemau a phryderon ar-lein. Mae pob disgybl yn yr ysgol â mynediad i'r hafan https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/cyngor-i-blant-a-phobl-ifanc-problemau-a-phryderon-ar-lein/

*HWB has released a new platform for young people who are worried about online problems. All our pupils have access to HWB and the advice can be found at https://hwb.gov.wales/zones/keeping-safe-online/advice-for-children-and-young-people-online-issues-and-worries/*

Mae hafan Carlam Cymru (e-sgol) yn cynnig recordiadau o wersi i helpu efo adolygu TGAU, UG a Safon Uwch. Ewch at https://e-sgol.cymru/carlam-cymru-home/ am fwy o wybodaeth. *The Carlam Cymru website offers recordings of lessons to aid revision at GCSE, AS and A Level. Go to https://e-sgol.cymru/carlam-cymru-home/ for further information.*

Mae hafan 'Lefel Nesa' Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys cyngor am adolygu. Chwiliwch am Lefel Nesa Power Up Addysg Cymru am fwy o wybodaeth. *Education Wales' website 'Power Up' also has information about revising. Search 'Lefel Nesa Power Up' for further information.*

**Bydd yr ysgol yn ail-agor ar ddydd Llun, y 25ain o Ebrill. Gofynnwn i BOB disgybl sicrhau bod ganddyn nhw wisg ysgol cywir ac offer ysgrifennu efo nhw.**

***School will re-open on Monday, the 25th of April. We ask that EVERY pupil wears the correct uniform and has writing equipment with them.***

**PASG HAPUS! / HAPPY EASTER!**